Adran Gwaith a Phensiynau

# Deall **Ailystyriaeth Orfodol**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **MR1WER** 08/23

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 3


2



**Cyn i chi ofyn am Ailystyriaeth Orfodol**

Tudalen 6

3



**Pryd y dylech ofyn am Ailystyriaeth Orfodol**

Tudalen 9

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Ar ôl i chi wneud cais am fudd-dal, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gwneud penderfyniad am eich cais.




Mae eich penderfyniad budd-dal yn seiliedig ar:

- Y rheolau ynghylch pwy all wneud cais am fudd-dal y gwnaethoch gais amdano
- Yr hyn a ddywedasoch wrthym pan wnaethoch gais am y budd-dal




- Unrhyw ddogfennau neu wybodaeth ategol a roesoch i ni
- Unrhyw apwyntiadau yr aethoch iddynt
- Unrhyw wybodaeth arall yr oedd yn rhaid i ni ei chasglu fel rhan o'ch cais.



Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad hwn, gallwch ofyn i DWP edrych arno eto.




Pan fydd eich penderfyniad yn cael ei ystyried eto, mae DWP yn galw hwn yn **Ailystyriaeth Orfodol**.

?

Mae **'Ailystyriaeth Orfodol'** yn golygu byddwn yn edrych ar:

- Y wybodaeth a roesoch i ni yn wreiddiol
- Unrhyw wybodaeth newydd rydych yn ei rhoi
- A oes unrhyw newidiadau wedi bod yn eich amgylchiadau.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i weld a allwn newid ein penderfyniad.




Bydd y canllaw Hawdd i'w Ddarllen hwn yn esbonio:

- Beth yw Ailystyriaeth Orfodo
- **Pryd y gallwch ofyn** am un.

2

# Cyn i chi ofyn am Ailystyriaeth Orfodol



Gallwch ffonio'r swyddfa budd-daliadau sy'n delio â'ch cais os nad ydych yn siŵr am:

- A ddylid gofyn am Ailystyriaeth Orfodol
- Pa dystiolaeth i'w rhoi.




Byddant yn gallu esbonio'r rhesymau dros eich penderfyniad.

Gallant hefyd ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.




Gallwch barhau i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol ar ôl i chi siarad â'ch swyddfa budd-daliadau.

# Os ydych eisiau esboniad ysgrifenedig




Gallwch ofyn am esboniad ysgrifenedig gan y swyddfa budd-daliadau sy'n delio â'ch cais.

Gelwir hyn hefyd yn **ddatganiad ysgrifenedig o resymau**.




Nid oes angen i chi wneud hyn ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).




Mae hyn oherwydd y bydd eich llythyr penderfyniad gan PIP yn cynnwys esboniad ysgrifenedig.




Gallwch ofyn am Ailystyriaeth Orfodol o hyd, ond rhaid i chi wneud hyn **o fewn 14 diwrnod** i'r dyddiad ar eich datganiad ysgrifenedig o resymau.

# 3 Pryd y dylech ofyn am Ailystyriaeth Orfodol



Gallwch ofyn am Ailystyriaeth Orfodol os:

- Rydych yn credu bod y swyddfa sy'n delio â'ch cais wedi gwneud camgymeriad



- Rydych yn credu bod tystiolaeth bwysig wedi'i methu yn ystod y penderfyniad



- Nid ydych yn cytuno â'r rhesymau dros y penderfyniad



- Rydych eisiau edrych ar y penderfyniad eto.




Fel arfer mae angen i chi ofyn i DWP edrych ar eich cais eto o fewn **1 mis** o'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.



Ni ellir ailystyried rhai penderfyniadau. Mae rhai sy'n mynd yn syth i **apêl**.

I gael rhagor o wybodaeth am ba fudd-daliadau sy'n caniatáu ichi ofyn am Ailystyriaeth Orfodol, ewch i [www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal](http://www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal)

## Gwneud cais ar ôl 1 mis




Gallwch ofyn am Ailystyriaeth Orfodol ar ôl **1 mis**, ond rhaid bod rheswm da dros yr oedi.



Gallai’r rhesymau gynnwys:

- Rydych wedi bod yn yr ysbyty
- Mae rhywun yn eich teulu wedi marw.



**Rhaid i chi esbonio** pam fod eich cais yn hwyrach na 1 mis.

Ffoniwch y rhif ffôn ar eich llythyr penderfyniad yn gyntaf cyn llenwi unrhyw ffurflen Ailystyriaeth Orfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Ailystyriaeth Orfodol, ewch i [www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol](http://www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol)